



Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

01/08/2019

Annwyl Weinidog,

Ymchwilio a Gorfodi

Beth amser yn ôl bu i chi ysgrifennu at Meri Huws, y cyn Gomisiynydd, mewn cysylltiad â gweithrediad pwerau ymchwilio a gorfodi yn cynnig arweiniad iddi. Rydym wedi trafod yr arweiniad hwnnw mewn cyfarfodydd chwarterol ers hynny ac rwyf erbyn hyn mewn sefyllfa i ddarparu diweddariad ysgrifenedig i'ch sylw.

Gallaf gadarnhau bod adolygiad mewnol wedi ei gynnal ac y rhoddwyd sylw i safbwyntiau a fynegwyd yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fis Awst 2017 yn ogystal ag ystyried dyfarniadau achosion perthnasol Tribiwnlys y Gymraeg a'ch gohebiaeth chi (dyddiedig 26 Tachwedd 2018). Derbyniwyd hefyd, gyngor cyfreithiol cysylltiedig.

O ganlyniad i'r adolygiad mae addasiadau adeiladol a phriodol wedi eu gwneud i'r dull o weithredu Rhan 5 y Mesur. Nid yw'r trefniadau newydd yn tanseilio fy ngallu i orfodi yn ôl fy nisgresiwn nac ychwaith yn tanseilio hawl proses achwynydd i gwyno wrthyf. Wrth wneud yr addasiadau sicrhawyd bod amcanion Mesur y Gymraeg yn parhau i gael eu gwireddu drwy orfodi.

Prif fyrdwn eich gohebiaeth oedd egluro sut, yn eich barn chi, yr oedd modd arfer dull datrysiad buan ar gyfer delio â chwynion heb fynd yn groes i ddarpariaethau Mesur y Gymraeg. Nodwyd gennych bod dyfarniad Tribiwnlys y Gymraeg [Rhif TyG/WLT/18/3] yn arwyddocaol o safbwynt sylw wnaed ym mharagraff 23 yr achos hwnnw. Dywedoch hefyd bod sgôp i'r Comisiynydd amlinellu sut y bwriada arfer ei disgresiwn mewn Polisi Gorfodi

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

i'r graddau bod hynny'n creu 'polisi datrysiad buan'. (Roeddech yn gosod amodau yn gyfochrog â'r farn hon).

Ar sail cyngor cyfreithiol a dderbyniodd swyddfa'r Comisiynydd mae'n glir nad oes modd cyflwyno proses datrysiad buan rhwng derbyn cwyn ac ystyried agor ymchwiliad a bod yn *rhaid* ystyried agor ymchwiliad yn sgil derbyn cwyn ddilys. Cytunir gyda'r Llywodraeth bod dyfarniad TyG/WLT/18/3 yn arwyddocaol ac arweiniodd hyn, ynghyd â ffactorau eraill amlygwyd mewn cyngor cyfreithiol at sefydlu trefn bwysu a mesur ddiwygiedig wrth benderfynu agor ymchwiliad neu beidio. Golyga roi sylw gofalus i amgylchiadau'r gŵyn, ymddygiad y sefydliad a'r Polisi Gorfodi ynghyd ag unrhyw beth perthnasol arall. Mae canlyniadau cyflwyno'r drefn i'w gweld mewn atodiad i'r llythyr hwn.

O safbwynt mabwysiadu 'polisi datrysiad buan' cafwyd cyngor y byddai penderfyniad ar ran y Comisiynydd i beidio agor cwyn fel mater o drefn, oni bai bod achwynydd wedi ceisio datrysiad lleol yn gyntaf, yn gyfyngiad rhy gaeth ar ddisgresiwn y Comisiynydd. O ganlyniad byddaf yn parhau i annog achwynwyr i gyfeirio cwynion at sefydliadau cyn cwyno wrthyf i a byddaf yn rhoi ystyriaeth i ymdrechion a wnaed i gael datrysiad lleol i gŵyn fel *un* o'r ystyriaethau, ymysg eraill, wrth ystyried agor ymchwiliad neu beidio. Er cyn bwysiced yw gallu cwyno yn uniongyrchol wrth sefydliad cyhoeddus mae hawl proses gan achwynydd i ddod yn uniongyrchol ata i fel Comisiynydd ac nid wyf yn bwriadu gwneud dim i erydu'r hawl hwnnw.

Mae fy swyddogion wedi bod yn monitro trefniadau sefydliadau i ymateb i gwynion yn lleol. Mae canlyniadau monitro 2018 -19 yn dangos bod gwelliannau wedi bod.

Rwy'n parhau i fod yn awyddus iawn i sicrhau bod camau gorfodi gaiff eu gosod, lle bo rhaid gwneud hynny, yn effeithiol ac yn cyfrannu at wella'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rwy'n ddiolchgar i chi am eich arweiniad ar y mater hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg



Atodiad 1

		Ebrill	Mai	Mehefin
2016	Nifer y cwynion dilys	20	6	14
	Nifer y cwynion annilys	2	0	23
	Nifer yr ymchwiliadau statudol agorwyd	13 (65%)	4 (67%)	8 (57%)
	Penderfynu peidio ymchwilio	7	2	6
2017	Nifer y cwynion dilys	7	12	9
	Nifer y cwynion annilys	0	0	1
	Nifer yr ymchwiliadau statudol agorwyd	6 (86%)	9 (75%)	5 (56%)
	Penderfynu peidio ymchwilio	1	3	4
2018	Nifer y cwynion dilys	24	18	9
	Nifer y cwynion annilys	1	0	0
	Nifer yr ymchwiliadau statudol agorwyd	18 (75%)	17 (94%)	6 (67%)
	Penderfynu peidio ymchwilio	6	1	3
2019	Nifer y cwynion dilys	11	21	21
	Nifer y cwynion annilys	1	2	3
	Nifer yr ymchwiliadau statudol agorwyd	3 (27%)	12 (57%)	6 (29%)
	Penderfynu peidio ymchwilio	8	9	15